Pererindod Gristnogol

Fe wnaeth Iesu dipyn o deithio yn ei ddydd, felly aeth e drwy sandalau dipyn cyflymach na'r person arferol.

Roedd y Cristnogion cynnar arfer â dilyn union gamau'r Iesu ym Methlehem, Nasareth a Jerwsalem, sef y Tir Sanctaidd. A dyma ddechrau ar y traddodiad o bererindod, sef teithio i le sanctaidd er mwyn addoli neu ddangos ymroddiad crefyddol.

Wrth i Gristnogaeth fynd yn fwy poblogaidd, cafodd cyrchfannau pererindod newydd eu sefydlu. Roedd y lleoliadau yn cael eu hystyried yn sanctaidd am fod gwyrth wedi digwydd yno, neu, fod sant wedi byw neu farw yno, neu fod rhywun 'falle wedi gweld delwedd ddwyfol mewn brechdan gaws.

Nid twristiaeth grefyddol yw pererindod, ond ffordd o ddyfnhau ymroddiad, sy'n cynnig cyfle i bobl anghofio am straen bywyd a phryderon bob dydd. Mae'r daith ei hun yn rhoi digonedd o amser i fyfyrio, gweddïo a chydymdeimlo ag eraill.

Mae pererindodau yn dal i ddigwydd heddiw ac mae gan Gymru ei siâr o gyrchfannau, megis Eglwys Gadeiriol Tyddewi, ble mae gweddillion Dewi Sant wedi'u claddu. Roedd Dewi'n enwog am sawl gwyrth, pan roedd e'n pregethu yn Llanddewi Brefi un tro, roedd hi'n anodd ei glywed am fod cymaint o bobl yno. Ond doedd dim angen system sain arno, achos glaniodd colomen ar ei ysgwydd a chododd bryn o dan ei draed.

Roedd gwerth pob pererindod yn cael ei gyfrifo'n ofalus. Felly, roedd tair pererindod i Dyddewi yn cael eu hystyried yn gyfwerth ag un bererindod i Jerwsalem.

Nawddsant Cymru yw Dewi Sant wrth gwrs, ond roedd e hefyd yn fab i sant. Santes oedd ei fam, Non, ac mae capel yn sefyll ym man geni Dewi. Yn ôl y traddodiad, ymddangosodd ffynnon pan anwyd Dewi, ac roedd hon yn gyrchfan bererindod bwysig iawn yn yr Oesoedd Canol am fod pobl yn credu bod y dŵr yn gallu iacháu cleifion.

Syniad call iawn, gan fod doctoriaid y cyfnod yn fwy tebygol o ladd pobl nag unrhyw afiechyd.

Fyddai'r un bererindod yn gyflawn heb ymweld ag Ynys Enlli. Mae'r ynys bellennig hon yn lle mor sanctaidd, roedd pobl yn credu byddan nhw'n mynd yn syth i'r nefoedd petaen nhw'n marw yno.

© Copyright BBC

Mae rhai'n honni bod 20,000 o seintiau wedi eu claddu yno ar hyd y canrifoedd.

Hefyd, tua 1,500 o flynyddoedd yn ôl, sefydlodd Sant Cadfan fynachlog Gristnogol ar yr ynys. Ac yn ôl y sôn, hon oedd y fynachlog gyntaf ym Mhrydain.

Gyda phererindod, nid cyrraedd y gyrchfan ei hun sy'n bwysig, ond yn hytrach holl brofiad y daith. Mae hi bendant werth cofio hynny pan mae dy asyn yn torri i lawr.

© Copyright BBC